# Nodiadau mynegi dymuniad grant marwolaeth (Cynghorwyr)

**Darllenwch y nodiadau canllaw hyn yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen.**

Mae swm y grant marwolaeth sy'n daladwy yn dibynnu ar ba fath o aelod ydych chi yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'n rhaid i chi hefyd farw cyn troi'n 75 oed er mwyn i grant marwolaeth fod yn daladwy o bosibl:

| | |
|---|---|
| **Os ydych chi'n marw pan fyddwch chi'n dal yn gweithio a'ch bod chi'n dal yn talu cyfraniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** | Bydd gwerth y grant marwolaeth ddwywaith eich cyflog cyfartalog gyrfa. |
| **Os ydych yn gadael cyn ymddeol gyda buddion gohiriedig ac yn marw cyn eu cael nhw** | Bydd gwerth y grant marwolaeth dair gwaith gwerth eich pensiwn blynyddol yn ogystal â chynnydd mewn costau byw. |
| **Os ydych yn marw tra byddwch yn cael eich pensiwn** | Bydd gwerth y grant marwolaeth bum gwaith swm eich pensiwn blynyddol, ar ôl tynnu unrhyw daliadau yr ydych chi wedi'u cael eisoes. |

- Gall eich buddiolwyr grant marwolaeth fod yn un neu fwy o aelodau'r teulu, ffrindiau neu elusennau. Os oes mwy nag un buddiolwr arfaethedig, gofalwch bod canrannau pob buddiolwr yn dod i gyfanswm o 100%.
- Os oes angen mwy o le ar gyfer mwy na tri buddiolwr, cadarnhewch eu manylion ar ddalen ar wahân **(arwyddwch a nodwch y dyddiad ar y ddalen ar wahân hefyd).**
- Gallwch ddiweddaru eich mynegiant o ddymuniad ar unrhyw adeg drwy gwblhau ffurflen arall.
- Ni allwch nodi pwy fyddai nesaf os bydd eich buddiolwr enwebedig gwreiddiol yn marw o'ch blaen. Yn yr achos hwn, dylech lenwi ffurflen mynegi dymuniad newydd.
- Os nad ydych chi'n cwblhau ffurflen mynegi dymuniad, bydd y taliad yn cael ei wneud i'ch cynrychiolydd personol, er enghraifft, eich Ystâd.
- Mantais mynegi dymuniad yw y caiff y grant marwolaeth ei dalu'n gyflym, ac ni fydd angen aros i'ch Ystâd gael ei setlo. Ni fydd y grant marwolaeth yn ffurfio rhan o'ch Ystâd, sy'n golygu na fydd angen talu treth etifeddiant arno.
- Mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn datgan, er mwyn osgoi costau treth, fod angen prosesu taliad y grant marwolaeth o fewn dwy flynedd i hysbysu'r Gronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol am y farwolaeth. Dylai eich perthynas agosaf ein hysbysu am eich marwolaeth a chwblhau'r holl ffurflenni cyn gynted â phosibl, fel bod y grant marwolaeth yn cael ei dalu o fewn yr amserlen hon o ddwy flynedd.
- Dylech gadw copi o'ch ffurflen mynegi dymuniad wedi'i chwblhau, ynghyd â'r nodiadau hyn, a'u ffeilio mewn man diogel ar gyfer eich cofnodion.
- Mae'r ffurflen hon ar gyfer y taliad grant marwolaeth yn unig. **Ni allwch enwebu ar gyfer y pensiwn goroeswr.**
- Sylwer, yn ôl y gyfraith, mae gan Gronfa Bensiynau Clwyd lais yn y penderfyniad ynghylch pwy ddylai dderbyn y grant marwolaeth. Os llenwch chi ffurflen mynegi dymuniad yn enwi eich buddiolwyr, bydd hynny'n ein helpu i dalu'r grant marwolaeth i'r bobl iawn.

# Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Cynghorwyr)
# Ffurflen mynegiad o ddymuniad grant marwolaeth

**Manylion yr Aelod:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw llawn:** | | | |
| **Rhif YG:** | | **Dyddiad Geni:** | |
| **Cyfeiriad:** | | | |
| | | **Cod post:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | | **Rhif Ffôn:** | |

**Dewis Iaith:** Dymunaf dderbyn **POB** gohebiaeth yn y dyfodol yn (rhowch ✓ yn y blwch perthnasol i chi i ddangos eich dewis)

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymraeg** | ☐ | **Saesneg** | ☐ | **Dwyieithog** | ☐ |

**Dewis o ran Cyfathrebu:** Dymunaf dderbyn **POB** gohebiaeth yn y dyfodol yn (rhowch ✓ yn y blwch perthnasol i chi i ddangos eich dewis) **(Dewiswch UN opsiwn yn unig)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Electronig**<br>*Sicrhewch eich bod wedi cofrestru i ddefnyddio'r Hunanwasanaeth Aelodau i dderbyn gohebiaeth yn electronig:<br>**https://mss.clwydpensionfund.org.uk** | ☐ | **Papur** | ☐ |

**Manylion eich buddiolwr 1af:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw llawn:** | | **Canran y Buddiolwr:** | % |
| **Dyddiad Geni:** | | **Perthynas:** | |
| **Cyfeiriad:** | | | |
| | | **Cod post:** | |

**Manylion eich 2il fuddiolwr:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw llawn:** | | **Canran y Buddiolwr:** | % |
| **Dyddiad Geni:** | | **Perthynas:** | |
| **Cyfeiriad:** | | | |
| | | **Cod post:** | |

**Manylion eich 3ydd fuddiolwr:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw llawn:** | | **Canran y Buddiolwr:** | % |
| **Dyddiad Geni:** | | **Perthynas:** | |
| **Cyfeiriad:** | | | |
| | | **Cod post:** | |

**Datganiad:** Rydw i wedi darllen y nodiadau canllaw. Gofynnaf i Gyngor Sir y Fflint (Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd) gan ymarfer ei ddisgresiwn absoliwt, ystyried talu unrhyw gyfandaliad budd marwolaeth sy'n ddyledus o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i'r unigolyn/unigolion a/neu sefydliad(au) uchod ac (os oes mwy nag un) ei rannu yn unol â fy Mynegiad Dymuniad.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Eich llofnod:** | | **Dyddiad:** | |

**Dylid dychwelyd y ffurflen hon wedi ei chwblhau at Gronfa Bensiynau Clwyd drwy un o'r dulliau canlynol:**

Uwchlwytho'r ffurflenni drwy 'Uwchlwytho Dogfen' ar Hunanwasanaeth Aelodau

**pensiynau@siryfflint.gov.uk**

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF